Newyddion – Ebrill 2011

Munud i Feddwl – 27 Ebrill 2011

Y Gweinidog yn trafod garddio? A yw ei swydd-ddisgrifiad wedi newid? Bellach yn arddwr yn hytrach na bugail? *"Scarsli bilif!"* Mae yna wrth gwrs sôn am Ardd a phridd yn y Beibl. Chi'n cofio? Darllenwch **Munud i Feddwl** yr wythnos hon ac fe ddaw'r cyfan yn eglur!

Dathlu'r Atgyfodiad – Sul y Pasg – 24 Ebrill 2011



Tynnodd pawb anadl ddofn wrth gerdded i mewn i gapel Minny Street fore heddiw a gweld carped o ganhwyllau ynghynn i ddathlu Atgyfodiad ein Harglwydd. Penllanw ein hwythnosau o ddilyn Taith y Grawys; bu'n daith anodd, yn arbennig felly'r wythnos aeth heibio. Bore heddiw cawsom gyfle i lawenhau oherwydd, er gorfod llusgo'n ffordd trwy ddrygioni, casineb a marwolaeth, gwyddom mai daioni, cariad a bywyd a orfu! **Halelwia oedd, ac yw, ein cân!** Yn ei lyfr ar Efengyl Ioan, *Readings from St John's Gospel* (1945; Macmillan), mae William Temple (1881-1944) yn trafod yr Atgyfodiad o dan y pennawd *The Dawn*: dechreuad newydd a bendigedig! Fe'n hatgoffwyd gan ein Gweinidog bod goleuni wedi dod ar Fore'r Trydydd Dydd i chwalu tywyllwch angau; goleuni a goncrodd dywyllwch ofn ac ansicrwydd, goleuni a ddinistriodd y tywyllwch sy'n difetha bywyd. Wrth ein gwahodd i gynnau cannwyll i ddathlu Dydd yr Atgyfodiad cawsom ein herio i fod yn bobl sydd yn gweld y golau hwnnw: ei weld ym mhrofiadau bywyd, da a drwg; ac o'i weld, byw yn ei lewyrch; ac o fyw ynddo, ymgysegru iddo.

Wedi sôn am y goleuni anorchfygol hwn rhyfedd wedyn oedd gweld y Gweinidog yn ei sgwrs i'r plant yn cydio'n dynn mewn blanced dân! Wrth sôn am y canhwyllau atgoffwyd pawb yn y gynulleidfa mae ein braint yw cael bod yn ganhwyllau i'r Arglwydd Iesu Grist yng nghymdeithas Y Waun Ddyfal, yng Nghaerdydd ac yng Nghymru. Manteisiwn ar yr anrhydedd o gael sôn am Iesu Grist yn 2011. Dyna oedd neges y Gweinidog. Ynghlwm wrth y llawenydd o wneud hynny fe'n atgoffwyd hefyd i fod yn wyliadwrus na fyddwn ni na neb, yn unigolion neu'n gyfundrefn, yn ceisio, trwy ein hymddygiad a'n bywydau, ddiffodd Fflam Crist trwy daflu blanced dân dros y cyfa

Pedr a Philip oedd wedi anfon negeseuon e-bost i Eglwys Minny Street ar Sul y Blodau. Heddiw derbyniwyd dau e-bost arall. Oddi wrth Thomas (*Llun: Doubting Thomas gan Carvaggio 1573-1610*) y daeth y cyntaf. Gresynu 'roedd Thomas fod pawb yn cofio'i eiriau, ***"Os na welaf ôl yr hoelion yn ei ddwylo, a rhoi fy mys yn ôl yr hoelion, a'm llaw yn ei ystlys, ni chredaf fi byth"*** (Ioan 20:25), ond neb fawr yn cofio'r hyn ddywedodd wedyn, *"**Fy Arglwydd a'm***

Duw!" (Ioan 20: 28)**.** Sôn am ei ddwylo wnaeth Thomas; dwylo pysgotwr. Dim ond pâr o ddwylo oedd ganddo. i'w gynnig i Iesu; pâr o ddwylo i wynebu anawsterau'r byd, i wynebu awdurdodau'r byd ac i wynebu anghenion y byd! Ein hatgoffa gwnaeth Thomas nad oedd ganddo'r gallu ymenyddol i ddeall, i sylweddoli nac i werthfawrogi'r hyn a olygai'r disgyblion pan fu iddynt adrodd wrtho, **"*Yr ydym wedi gweld yr Arglwydd*"** (Ioan 20: 25b). Yr unig siawns oedd gan Thomas i brofi'r llawenydd hwnnw oedd gyda'i ddwylo. Nid gwrthod credu a wnaeth ond methu! Rhaid oedd iddo gael teimlo'r Atgyfodiad ac o gael gwneud fe'i gwefreiddiwyd - *"**Fy Arglwydd a'm Duw**!"* Trwy'r e-bost fe'n hatgoffwyd gan Thomas bod angen y profiad o glwyfau Iesu ar bob yr un ohonom.

"Dwy law yn erfyn, sydd yn y darlun wrth ymyl fy ngwely i …" (T. Rowland Hughes 1903-49; *C.Ff.* 139) Darlun gan yr artist Albrecht Durer (1471-1528), *Y Dwylo Gweddigar (Llun: Praying Hands gan Albrecht Durer)* , a ddisgrifir yn yr emyn. Her y dwylo yw'r ffaith nad ydynt yn feddal; dwylo creithiog a chnotiog ydynt sydd wedi gweithio a dioddef. Tipyn llai cyfarwydd yw darlun arall o'i eiddo, *Traed Dyn ar ei Luniau (Llun: The Feet of a Kneeling Man gan Albrecht Durer)*. Nid traed meddal yw'r rhain chwaith, maent yn galed, wedi cerdded yn bell ac wedi sefyll yn hir. Wrth ymgynnull o amgylch Bwrdd y Cymun ar Fore Sul y Pasg, rhannodd y Gweinidog hanes y pregethwr a'r emynydd Azariah Shadrach (1774-1844) â ni. Anfonwyd 'trap a phoni' i'w gyrchu un Sul; gwrthododd y cennad gan ateb:

"Ar ei draed 'roedd Paul Apostol, Ar ei draed 'roedd Iago grasol
Ar ei draed 'roedd Pedr danllyd, Ar fy nhraed 'r af innau hefyd!"

Fe'n ysgogwyd gan y Gweinidog i ddeall mai dyna her Sul y Pasg. Yng ngrym a gwres yr Atgyfodiad, mae'r eglwys ar ei thraed. Bu'n drwm ei throed wrth gerdded taith hir y Grawys, ond heddiw mae eto'n ysgafn ei throed; a phob lliw a llun o draddodiad a diwinyddiaeth yn cyd-ddawnsio'n unfryd. Ein braint, yng ngrym a gwres yr Atgyfodiad yw datgan '*ar ein traed 'r awn ninnau hefyd*'. Ar ein taith, gyda Duw, a gyda'n gilydd.

E-bost oddi wrth Iago a ddarllenwyd yn Oedfa'r Hwyr. Daethom i adnabod Iago dros y misoedd diwethaf wrth i ni astudio ei Lythyr. Neges, gyda thri phennawd, i ni yn Eglwys Annibynnol Minny Street, oedd yr e-bost heno! **Tân y Ffydd:** aeth Iago ati i'n herio i wneud yr hyn a allwn dros ein Harglwydd mewn cariad ufudd a llawen. Fe'n rhybuddiodd hefyd rhag meddwl amdano ef a gweddill arweinwyr yr Eglwys Fore fel arwyr; *"yn union fel chwithau"***,** meddai, *"gweision i'r Arglwydd Iesu Grist oeddem"***.** Fe'n heriodd i fynd ati i gyflawni ein potensial fel eglwys yng Nghaerdydd a'n gwlad. Wrth gefnogi ein hymdrechion i wneud daioni a chefnogi elusennau, gwneud gweithgarwch cymdeithasol, a gweithio gyda'n plant a'n pobl ifanc, fe'n hatgoffwyd i gofio mai tanwydd eglwys yw gweddi ac addoliad. **Cadwyn y Ffydd:** er ein bod yn ymhyfrydu mewn cadwyn gref o weinidogaeth ar hyd y blynyddoedd fe'n hatgoffwyd mai ein dyletswydd yw cryfhau. Rhybuddiodd Iago ni rhag cysuro ein hunain ein bod eisoes yn gryf. *"Dangoswch i mi eglwys nad sydd â lle i ychwanegu cryfder at ei chryfder*", meddai! **Ffwdan a Ffydd:** ar ddiwedd ei neges tynnodd Iago ein sylw at y modd yr aeth y milwyr ati i selio maen y bedd *(Llun: Roman Guards Watching over the Tomb gan James Jacques Tissot 1836-1902)* gyda dernyn o raff a dau damaid o gwyr (Mathew 27:66). Eu gofid oedd pobl yn torri i mewn i'r bedd o'r tu allan; ni ddaeth i feddwl yr un ohonynt y gellid torri allan *o'r tu fewn*! **"***A ydyw aelodau*

Eglwys Minny Street, a ydy Gweinidogion ac eglwysi Cymru yn syrthio i'r un camgymeriad?", gofynnodd. Mae yna berygl rhoi'r argraff bod yn rhaid i ni rywsut ollwng Crist yn rhydd, a bod hynny'n dibynnu ar ein prysurdeb a'n gweithgarwch. Fe'n hatgoffwyd nad oes angen neb ar Grist i ddianc o'r bedd! Nid ei bobl sydd yn gollwng Crist yn rhydd; Crist sydd yn gollwng ei bobl yn rhydd!

Cafwyd Sul o fendith wrth ddathlu Atgyfodiad ein Harglwydd heddiw. Ein her bellach yw mynd ati a sicrhau bod y gymdeithas a'r byd o'n cwmpas yn gwybod am ryfeddod achubol newyddion y Trydydd Dydd - cyhoeddi hyn yw ein gwaith a'n braint!

"Mair paid ag wylo mwy.
Mae'r garddwr yn ei ardd – Ffrwyth ei wasanaethu ef fydd troi byd hyll yn hardd.
Duw a'i cyfododd ef yn frenin byd a nef O! Mair nid oes angen wylo mwy."
(o *Cân y Pasg* gan T James Jones; *Adnodau a Cherddi Eraill*, Gwasg Gomer 1975)

Y Crist Atgyfodedig - ffenestr ddwyreiniol Eglwys y Santes Fair, AberystwythAr Wyl y Pasg sôn am nerth Crist i atgyfodi'r Eglwys Leol a wna Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, y Parchedig Ddr Geraint Tudur, yn ei neges arferol i'r eglwysi: *"Mae grym atgyfodiad Crist yn ddeinamig oesol sydd wedi cynnal a gyrru yr Eglwys Gristnogol drwy'r canrifoedd … mae'r Eglwys wedi goroesi amserau enbyd yn y gorffennol, bydd hefyd yn dod trwy'r cyfnod anodd hwn. Mae Duw yn gweithio trwy ei bobl, ac fel pobl Dduw, mae galw arnom i droi ein ffydd yn weithredoedd … rhaid i eglwysi ailddarganfod eu cenhadaeth, a gweld y rheswm dros eu bodolaeth. Eu cenhadaeth yw dangos wyneb Iesu Grist i bobl mewn pob math o anghenion, corfforol ac ysbrydol, a thrwy hynny, rhoi iddynt obaith.*" Sôn am y gobaith hwn a wna Cyd-lywyddion Cymdeithas Annibynwyr y Byd, y Parchedig Phaedon Cambouropoulos a'r chwaer Val Price, yn eu Neges Pasg hwythau: *"Unwaith eto eleni ymunwn gyda Christnogion ar draws y byd i ddathlu'r Pasg. Amser penodol ac arbennig i ddiolch i Dduw am y Bedd Gwag - am y bywyd, golau a chariad, am y llawenydd a'r gobaith y cawn ei fwynhau heddiw am Ei fod wedi atgyfodi ac yn fyw ... ymlawenhawn yn y rhyddid, addoliad a gobaith a gynigir i ni wrth i ni geisio byw Cariad Duw yn Iesu Grist. "Cododd Crist", "Yn wir, Atgyfododd Crist"!"*

Taith Gerdded 'Y Clychau Glas' – 23 Ebrill 2011

"Dyfod pan ddêl y gwcw, Myned pan êl y maent,
Y gwyllt atgofus bersawr, Yr hen lesmeiriol baent …"
(*Blodau'r Gog* (yn ddiweddarach *Clychau'r Gog*) R Williams Parry (1884-1956; *Cerddi'r Gaeaf,* Gee a'i Fab, 1952)

Dyna ddisgrifiad y bardd o'r clychau glas a mynd yn benodol oeddem fore heddiw gan wybod y byddent yn eu holl ogoniant. Ni chawsom ein siomi! Clychau'r gog, bacse'r brain, clychau gleision, bwtsias y gog a hosanau'r gwcw … dyna rai o'r enwau a roddir arnynt. *(Llun: Blodau'r Gog yn llawysgrif y bardd: R Williams Parry)*



Ni chlywsom ddeunod y gwcw bore heddiw ond yn sicr 'roedd yr Artist wedi bod yno gyda'i frwsh a'i baent. 'Roedd y llethrau yn un carped glas diwnïad wedi ei daenu o dan foncyffion lliw arian y coed. Rhaid oedd i ni arafu ein cam ac oedi yma a thraw i ryfeddu at yr olygfa a thynnu ambell lun.

Gwyddem o'r gore na all llygad y camera fyth gyfleu'r darlun hudolus yn iawn. Rhaid llenwi'r cof â'r lluniau!

Ar ôl y gawod law bnawn ddoe 'roedd "*y gwyllt atgofus bersawr*" i'w glywed yn ysgafn ar yr awel ac weithiau sylwem ar aroglau cryfach y garlleg gwyllt ac arogl gwair newydd ei ladd ar y llwybr ar fin y ffordd. Taith i'w thrysori oedd hon. Mae'r sgwrs dros ginio ar ddiwedd y daith yn rhan bwysig o'r trefniadau; dyna fel 'roedd hi heddiw eto yn Y Ffynnon Wen, Thornhill.

Munud i Feddwl – 23 Ebrill 2011

"Dysgodd yr Iesu ei grefft fel pob llanc tlawd a chyfoethog yn ei wlad; arferai drin coed a cherrig a chlai, a dysgu cynlluniau a mesurau tai yng ngweithdy ei dad … Wrth fwrw'r hoelion i mewn i'r pren fe gafodd y prentis loes, fe welodd wrth forteisio dau ddarn Waredwr ifanc yn bodloni barn Duw ar y groes." (*Y Pensaer* gan Gwenallt (1899-1968); *Eples* 1951 Gwasg Gomer) Yn y **Munud i Feddwl** olaf o **Gyfres yr Wythnos Fawr** rhannu profiad Effraim â ni a wna'r Gweinidog.

Gwasanaeth Dydd Gwener y Groglith – 22 Ebrill 2011

Ymunodd cynrychiolaeth gref o Eglwys Minny Street â'r gynulleidfa niferus a ddaeth ynghyd brynhawn heddiw yn Eglwys Dewi Sant i fyfyrio a chofio am yr hyn ddigwyddodd ar Fryn Calfaria bron 2,000 o flynyddoedd yn ôl. **Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd** sy'n trefnu'r oedfa flynyddol hon fel penllanw i'r gyfres o Fyfyrdodau Grawys a gynhelir yn yr wythnosau sy'n arwain i fyny i'r Pasg.

Darllenwyd o'r Hen Destament, o Broffwydoliaeth Eseia (53: 3-12), gan ein cyd-aelod, y Parchedig Menna Brown, Cadeirydd Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Rhannwyd hefyd â'r gynulleidfa eiriau o'r Llythyr at yr Hebreaid (10: 1-10 a 19-23) a chyhoeddwyd yr Efengyl (Ioan 19: 1-37) yn ein plith. Cyfoethogwyd yr addoliad gan Gôr Eglwys Dewi Sant yn canu anthem John Rutter (gan. 1945) *Dduw, bydd i mi'n Gred* (cyfieithiad o *God, be in my Head*).

Gweinidog Eglwys Annibynnol Ebeneser, Caerdydd, y Parchedig Ddr Alun Tudur, oedd y cennad gwadd. Canolbwyntiodd ei sylwadau ar eiriau o Lythyr Paul at y Philipiaid sy'n dod o dan y pennawd ***Gostyngeiddrwydd Crist***: *"Amlygwch yn eich plith … yr agwedd … yn eiddo i chwi yng Nghrist Iesu. Er ei fod ar ffurf Duw … fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas … fe'i darostyngodd ei hun … Am hynny, tradyrchafodd Duw ef …"* (Philipiaid 2: 5-11). Nododd y Pregethwr dwy elfen y dylem ganolbwyntio ein myfyrdod arnynt ar Ddydd Gwener y Groglith: y modd y bu i Grist **ddarostwng** ei hun o'i gyflwr dwyfol *(Llun: "fe'i darostyngodd ei hun ..." The Washing of the Feet gan Ghislane Howard gan. 1953)*, a'r modd y bu i Dduw ei dra**dyrchafu**. *"Pen-ffrwydrol yw'r sylweddoliad"*, meddai'r Parchedig Alun Tudur, bod Iesu wedi *"gwacau ei hun a dod ar wedd*

ddynol fel caethwas." Soniodd ymhellach sut y bu i Dduw ddangos maint ei gariad tuag atom trwy aberth yr Arglwydd Iesu:

> *"Nid dim rhinweddau ynom ni na dim a wnaed ar Galfarî*
> *fu'n achos iddo garu dyn, fe'i carodd er ei fwyn ei hun."*
> (Azariah Shadrach 1774-1844 *C.Ff.* 171)



Er siom Gwener y Groglith fe'n hatgoffwyd, fel y'n hatgoffwyd neithiwr yn ein Hoedfa Nos Iau Cablyd, bod Gwawr Fawr y Trydydd Dydd ar ddod. Dyma ein Gobaith, dyma sicrwydd ein Ffydd: *"tradyrchafodd Duw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw … ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd*" (Philipiaid 2: 10-11). Yng nghanol trallod Gwener y Groglith nad anghofiwn, yng ngeiriau'r plentyn hwnnw: ***"mi gododd o, yn do?"***

Daeth yr oedfa i'w therfyn gyda'n Gweinidog yn arwain y Defosiwn o Flaen y Groes trwy offrymu'r edliwiadau traddodiadol i'n hatgoffa o fawrion weithredoedd achubol Duw, a'n hymateb llugoer ninnau iddynt.

Munud i Feddwl – Dydd Gwener y Groglith, 22 Ebrill 2011

Pa un tybed, a bwniodd yr hoelion i'w lle? A bwniwyd yr hoelion trwy'r cnawd i'r pren mewn dicter? o ddiléit? neu o ddyletswydd? Myfyrio a wna'r Gweinidog yn ei **Funud i Feddwl** heddiw am wr yr hoelion.

Oedfa Nos Iau Cablyd – 21 Ebrill 2011

"Ar ddydd cyntaf gwyl y Bara Croyw, pan leddid oen y Pasg, dywedodd ei ddisgyblion wrtho, "I ble yr wyt inni am fynd i baratoi i ti, i fwyta gwledd y Pasg?" (Marc 14: 12) Heno, bron 2,000 o flynyddoedd ers y noson dyngedfennol honno ym mywyd ein Harglwydd Iesu Grist, daeth aelodau Eglwys Minny Street at ei gilydd i rannu o amgylch y Bwrdd a chofio Sefydlu Swper yr Arglwydd.

Llun Rubens (1577-1640), *Le Coup de Lance*, oedd testun ein myfyrdod cyntaf. Tynnwyd ein sylw at y llafn ddur yn torri trwy gnawd Iesu - *boed i lafn cariad Duw dorri drwy bechod ein bywyd.* Arweiniwyd ein llygaid at y cortyn yn clymu Iesu i'r pren garw - *boed i Dduw ein clymu'n dynn wrth berchennog y Groes*. Soniodd y Gweinidog am wedd welw llwyd yr Iesu; dim awgrym yn y llun o wawr fawr y Trydydd Dydd. Ac yna'r pastwn yn llaw'r cnaf. Ysgydwodd ergydion y pastwn hwn seiliau'r byd - *boed i Dduw bastyni bob pechod o'n heiddo, nes curo'n beiau'n llai na dim.* Yn olaf, fel y blodeua draenen ddu y Goron Ddrain yn wyn, felly hefyd *boed i goron gwarth, poen ac artaith y byd flodeuo yn obaith, ffydd a chariad.*

e-bost oddi wrth Jwdas oedd sail yr ail fyfyrdod. Erfyn arnom a wnaeth Jwdas i syllu heibio eiddew'r brâd a'r bradychu, a darganfod y goeden, Iesu. Eiddew ar y goeden yw'r Sanhedrin, Pilat, swn y dyrfa, Barabbas, Herod, clogyn ysgarlad, gwialen, coron ddrain, cableddau'r milwyr, y curo, y croeshoelio a'r marw hefyd. Gwyddai Iesu, meddai Jwdas yn ei neges, bod cyfaill yn mynd i'w fradychu. Pe byddai Iesu fel un ohonom ni, byddai wedi pellhau oddi wrth y cyfaill hwnnw, casglu



tystiolaeth yn ei erbyn cyn ei gyhuddo'n gyhoeddus. Ond nid un ohonom ni mohono! Bu i Jwdas ein hatgoffa bod Iesu'r Gwaredwr yn ffyddlon i'w gyfeillion, er gwaethaf pob anffyddlondeb, methiant, diffygion a ffolineb. **Arhoswch gyda'r Iesu'r Gwaredwr** - dyna oedd neges Jwdas heno! *(Llun: Cusan Jwdas - ffenestr lliw Eglwys Notre Dame des Neiges, La Bastide Puylaurent, Ffrainc)*

Yn ystod yr oedfa, buom yn canu Salmau, yn union fel y tybir i Iesu a'i ddisgyblion wneud wrth ddathlu'r Pasg gyda'i gilydd; Salm 121 yn son am gymorth Duw; Salm 122 yn ymbil am heddwch i Jerwsalem; a Salm 23, Salm y Bugail. Fe'n harweiniwyd gan ein Gweinidog at y Bwrdd gan ymbil am nerth i ddysgu gwers gostyngeiddrwydd, maddeuant a llawenydd ein Harglwydd. Fel y bu i ni weddïo ar ôl cydgyfranogi o'r bara a'r gwin: "*Mae Iesu Gethsemane yn gofyn i ni gerdded ffordd y Groes. Ymdawelwn, a deisyfwn nerth Duw i ddod yn barod i sefyll gydag Ef hyd y diwedd a thrwy'r diwedd, i wawr ei fuddugoliaeth.*"

Cydymdeimlo – 21 Ebrill 2011

Bu farw **Y Capten Robert Owen-Ffoulkes** heddiw. Symudodd o Gaerdydd i Sir Benfro am gyfnod ond 'roedd bellach yn ôl yn y Brifddinas, ac mewn Cartref Gofal ym Mhenarth. Cofiwn yn annwyl amdano a chydymdeimlwn yn ddiffuant â'i fab, Neil, a'r teulu.

Munud i Feddwl – Dydd Iau Cablyd, 21 Ebrill 2011



Pam ddewisodd y dorf Barabbas? Beth oedd y rheswm am y fath benderfyniad? Yn ei **Funud i Feddwl** heddiw cynnig y Gweinidog i ni weiddi '*Croeshoelia, croeshoelia ef.*' oherwydd i ni weld ein hunain. Sylweddolodd Reuben iddo weiddi am waed y Saer gan iddo weld Iesu, a deall Ei fod wrth ddioddef yn amlygu ei (hynny yw, Reuben), ac ein, cyflwr. Beth yw ein hymateb ni yn 2011?

Munud i Feddwl – 20 Ebrill 2011

Jacob, Rachel, Lasarus ... heddiw, palff o ddyn yn eistedd ar y llawr; talpau trwm o garreg un ochr, pentwr mawr o gerrig mân yr ochr arall. Yn ei law, morthwyl ... mae ergydion y morthwyl yn atseinio trwy'r dyffryn; mae gan neges y Gweinidog yn ei **Funud i Feddwl** dipyn o ergyd hefyd! Pwy yw'r dyn hwn? Beth yw ei neges?

Munud i Feddwl – 19 Ebrill 2011

"Peidiwch â throi i edrych ... mae Lasarus yn dod ... Lasarus a ddaeth yn ôl ... Y Lasarus! Chi'n gwybod am bwy rydw i'n sôn?" Pam y ffws, pam y ffwdan? Beth sy'n bod? Rhaid darllen y drydedd **Munud i Feddwl** yng nghyfres arbennig y Gweinidog o fyfyrdodau ar gyfer yr Wythnos Fawr i gael atebion. Pam y fath ymateb i Lasarus? Beth sydd wedi digwydd? … rhyfedd sut mae'r meddwl dynol yn gweithio! *(Llun: The Raising of Lasarus gan Vincent van Goch)*

PIMS: Digwyddiadau'r Pasg – 18 Ebrill 2011

Sesiwn o astudio'r Efengylau a gafwyd yn ***PIMS*** heno wrth i'n ieuenctid atgoffa ei gilydd, trwy ddarllen a thrafod, am ddyddiau ac oriau olaf yr Arglwydd Iesu Grist. Gan ddilyn *Taflen Ymchwil* wedi ei pharatoi gan y Gweinidog dilynwyd Iesu o'r Swper yn yr Oruwch-ystafell i droedio Ffordd Emaus. Cyfres o luniau fu'n tywys y daith o Ardd Gethsemane i'r Bedd Gwâg, gyda chroesair yn estyn cyfle i drafod rôl Pedr, Caiaffas, Jwdas Iscariot, Peilat a Simon o Cyrene yn nigwyddiadau oriau olaf bywyd dynol Iesu. Wrth astudio hanes angerddol y Croeshoeliad canolbwyntiwyd, trwy gyfrwng llun, ar sylweddoliad y canwriad wrth y Groes: *"Yn wir, Mab Duw oedd hwn."* (Mathew 27: 54b). Ychydig yn ddieithr i aelodau ***PIMS*** oedd hanes Cerdded i Emaus (Luc 24: 13-35); diddorol oedd y drafodaeth ar y modd yr adnabuwyd yr Iesu *"ar doriad y bara"* (Luc 24:35) a'r cyswllt gyda'r hanes astudiwyd ar gychwyn y sesiwn yn yr Oruwch-ystafell. Cyfeiriwyd hefyd ar y newid amlwg o ofid a siom Cleopas a'i gyd-deithiwr ar y daith tuag at Emaus, i lawenydd a moliant y ddau ar y daith nôl i Jerwsalem. Heb amheuaeth cafwyd sesiwn o fudd a bendith; aeth pawb, yn aelodau ac arweinwyr, adref wedi'u goleuo yn ystyr a goblygiadau'r Wythnos Fawr.





Munud i Feddwl - 18 Ebrill 2011

Yn y blynyddoedd cyntaf, byddai Rachel yn deffro gan sgrechian! Erbyn hyn, deffro gan ymladd fyddai, ymladd i ddal gafael ar y eiliad fach honno ar ddechrau pob dydd pan oedd pob peth fel y dylai fod ... pan 'roedd popeth yn iawn ... Cysylltu digwyddiadau'r Wythnos Fawr â'r hyn ddigwyddodd dros 30 mlynedd yn ôl wna'r Gweinidog yn ei **Funud i Feddwl** heddiw.

Bedydd ar Sul y Blodau – 17 Ebrill 2011

"*Hosanna! Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd. Bendigedig yw'r deyrnas sy'n dod, teyrnas ein tad Dafydd; Hosanna yn y goruchaf!*" (Marc 11: 9b-10) Gyda geiriau cyfarwydd hanes ymdaith fuddugoliaethus Iesu i mewn i Jerwsalem yr arweiniwyd cynnulleidfa Oedfa'r Bore i addoliad gan ddau o blant yr Ysgol Sul a'r Gweinidog. Yn swn bloeddio'r dorf daethom ninnau i ddiwedd ein **Taith Grawys**; heddiw cyraeddasom Jerwsalem. Ar hyd wythnosau'r Daith fe'n hatgoffwyd yn wythnosol mai taith yw'r Grawys. Pwysig felly yw bod yna ystyr a phwrpas wedi bod i'n teithio gan fod crwydro'n ddiamcan yn gwbl ofer, ac yn wastraff amser ac ynni. Anelu at gyrraedd y nod, yr amcan, a wna'r teithiwr; cyrraedd y pen draw sy'n rhoi ystyr a phwrpas i'r teithio. Wrth i ninnau heddiw gyrraedd ein nod estyn yr Wythnos ddwys a sanctaidd sydd o'n blaenau gyfle i weld o'r newydd rhyfeddod a dyfnder cariad Duw yng Nghrist.

"O Fab y Dyn, Eneiniog Duw, Fy Mrawd a'm Ceidwad cry',
ymlaen y cerddaist dan y groes a'r gwawd heb neb o'th du:" (George Rees 1873-1950; *C.Ff.* 541)

'Ceidwad cry'' yw ein Ceidwad; *'ymlaen y cerddaist'* i ganol berw Jerwsalem yng ngrym Cariad Anorchfygol i gwrdd ag angau ei hun. Cawsom ninnau heddiw gyfle i daenu blodau ar y ffordd i Jerwsalem i'n hatgoffa o'r gwirionedd mawr hyn.

Pwy yw ffrind gorau Sali Mali? Os oes yna waith mawr i'w wneud ar y ffordd, pa beiriant sydd ei angen i godi'r pridd? Pe bai mam neu dad yn cael olwyn fflat ar eu car, pa declyn byddai angen ei ddefnyddio? Dyna'r tri chwestiwn a ofynnwyd i'r plant a'r plantos wrth iddynt ymgynnull yn y Sêt Fawr i ddweud eu hadnodau. Yr atebion: Jac y Jwc yn ffrind, Jac Codi Baw yn gwneud gwaith a Jac Codi Car yn codi car! Ffrind, gwaith a chodi ... Iesu Grist yw ein **ffrind** ni; mae pob un ohonom i **weithio** gydag Iesu fel ein ffrind; o wneud hyn gall y gwaith ein **codi** a'n gwneud yn well pobl. Ond nid dyna'r cyfan. Buan y sylweddolwyd fod yna enw yn gyffredin i'r tri ateb: Jac! Yn ystod yr Oedfa cafwyd y fraint o fod yn dystion i fedydd **Jac William Morgan**, mab Carys a Simon, a brawd Catrin. Braf hefyd oedd croesawu un o'n 'haelodau tramor' i ymuno â ni yn ein haddoliad; 'roedd Prys Williams (brawd Carys) a'i deulu wedi dod draw o Awstralia i ymuno yn yr achlysur.



Yn yr **Oedfa Foreol** bu'r Gweinidog yn darllen y cyntaf o bedwar e-bost y derbyniodd yn ystod yr wythnos a aeth heibio. E-bost oddi wrth Simon Pedr oedd y cyntaf yn ein cyfarch fel aelodau'r gynulleidfa sy'n cyfarfod yn Eglwys Minny Street. Sôn am ei fethiannau, yn fwy na dim, a wnaeth Simon Pedr yn ei neges. Son am y troeon hynny bu iddo gysgu; ar Fynydd y Gweddnewidiad; yng Ngardd Gethsemane; a rhwng y ddau filwr yn y carchar. Cyffesa Pedr fod ynddo dueddiad i ddychwelyd at ganlyniadau ei dwpdra a'r amser y bu iddo gymryd cyn medru derbyn a deall bod maddeuant Duw yn troi heibio gwendidau o'r fath *(Llun: The Calling of Simon Peter, the Fisherman gan Duccio di Buoninsegna 1255-1318)*. Cyfeiriodd yn ei e-bost am bwysigrwydd siarad am ein hunain, ond i'r siarad hwnnw fod yn brawf o'n hymlyniad wrth y Saer Mawr. Yng ngeiriau Simon Pedr: *"Gadewais y cyfan er mwyn bod gyda Hwn. Cawsom ganddo ddamhegion, nid dogmâu; Ef oedd cwmpawd fy enaid, yn Beilot i mi ym mhob helynt, Cyfaill na fu ei well. Fe lwyddodd i'm troi wyneb i waered, a thu chwith allan nes bod yna unlle i mi guddio oddi wrth Dduw!*" Cyfeiriodd Simon Pedr yn ei neges at yr adeg pan osodwyd dwy lech y Deg Gorchymyn yn yr Arch. Rhoddwyd yno hefyd darnau chwâl llechi gwreiddiol y dystiolaeth y bu i Moses eu torri'n deilchion. Atgoffa Pedr ni bod pawb yn methu ar dro Ynom, ar gadw, mae darnau'r llechi a daflwyd o'n dwylo i'r llawr. Cawn gan Dduw, yng Nghrist, faddeuant - dwy lechen newydd. Dyma neges y Groesbren Wag a'r Maen Treigledig.

Oddi wrth Philip *(Llun: The Apostle Philip gan Albrecht Durer 1471-1528)* daeth yr ail e-bost; darllenwyd hwn yn **Oedfa'r Hwyr**. Sôn a wna Philip yn ei neges am ei ofyn ffôl: *"Arglwydd, dangos i ni y Tad, a bydd hynny'n ddigon inni."* (Ioan 14: 8) Eglura Philip mai wedi methu deall beth 'roedd Iesu yn ceisio ei gyfleu'r Noson Olaf honno oedd. Oherwydd hynny, methodd Philip ddal nôl rhag mynegi ei benbleth. Erbyn hyn, dealla, meddai, nad ffôl pob gofyn ffôl a'i gyngor i ni yn Eglwys Minny Street yn 2011 yw sicrhau ein bod yn cofio fod i bob gofyn ei werth, ac mae'r meddwl sy'n ei ofyn yn hawlio cael ei oleuo. Peidiwch, meddau Philip wrthym, â chladdu amheuon. Mynegwch hwy,

gofynnwch, a thrafodwch hwy yn agored a chyfrifol. 'Roedd yna hefyd dinc o feirniadaeth yn e-bost Philip. Ofna bod ein Ffydd yn ddryswch i ni. Nid anturiaeth yw credu bellach i ni ond cur pen. 'Rydym wrthi, yn ôl Philip, yn esbonio, yn cyfiawnhau ac yn amddiffyn ein Ffydd. Byddai'n well i ni sicrhau bod grym, goleuni, cysur a chymorth i fyw yn llenwi ein bywyd o weld ac adnabod Duw yng Nghrist. Nid digon gwybod yr hyn mae eraill yn ei wybod amdano, rhaid ei ddarganfod!

Tro'r aelodau oedd hi fore heddiw i ddweud eu hadnodau. '***Moliant***' oedd y thema a chafwyd nifer o amrywiol adnodau, gyda chanran helaeth iawn, efallai heb fod yn annisgwyl yn dod o'r Salmau, emynau mawl yr Iddewon. Braf oedd cael croesawu nifer o ymwelwyr yn ystod y diwrnod. Ymfalchïwn yn y croeso a estynnir i gyfeillion a dro i mewn i ymuno â ni yn ein haddoliad; y **Cylch Croeso**, mewn cydweithrediad â'r diaconiaid, sy'n sicrhau bod yna wyneb llon a chyfeillgar yn cyfarch y gynulleidfa yn y cyntedd wrth iddynt gyrraedd i'n hoedfaon. Bu rhai o aelodau'r gynulleidfa a'r Ysgol Sul wrthi brynhawn heddiw yn darparu lluniaeth ar gyfer y digartref. Yn Festri'r Tabernacl y gwnawn hyn a thystia pawb sy'n cyfrannu, naill ai trwy baratoi brechdanau neu trwy eu presenoldeb, am y fendith a ddaw yn sgil ymwneud â'r gwaith. Daeth nifer o wynebau newydd i ymgymryd o'r bwyd heddiw a, fel bob amser, gall gwrando ar ambell hanes buchedd a ffawd fod yn brofiad angerddol ac emosiynol. Nid oes dwywaith nad yw ymwneud â'r agwedd hon o weinidogaeth ein heglwys yn dod â ni wyneb yn wyneb a realiti bywyd yn ail negawd yr 21ain Ganrif. Daeth y Sul i'w derfyn dros bryd o fwyd Eidalaidd yn ein Koinonia Nos Sul misol.

Byddwn fel Eglwys yn cofio'r Wythnos Fawr mewn nifer o ffyrdd. Ynghyd a'r gyfres o e-byst yn ein hoedfaon ar y Sul, yr wythnos hon, bydd y Gweinidog yn paratoi **Munud i Feddwl** dyddiol. **Nos Iau Cablyd trefnir Oedfa Gymun** yn ein Festri ac ar **Ddydd Gwener y Groglith** byddwn yn ymuno ag eglwysi eraill **Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd mewn gwasanaeth yn Eglwys Dewi Sant**. Dydd **Sul y Pasg** cawn gyfle, yng nghwmni ein Gweinidog, i gyd-ddathlu'r newyddion syfrdanol o atgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist

Munud i Feddwl – Sul y Blodau, 17 Ebrill 2011

Sul tebyg i bob Sul oedd y Sul hwn i bobl Jerwsalem ... a hwythau heb ddyfalu am ein Sul y Blodau ni. Yn brysur, fel arfer, ... Sul tebyg i bob Sul oedd y Sul hwn i fugeiliaid Jerwsalem hefyd ... cwbl ddieithr iddynt fuasai ein siarad ni am yr Wythnos Fawr ... heddiw cawn **Munud i Feddwl** cyntaf y Gweinidog mewn cyfres arbennig ar gyfer yr Wythnos Fawr.

Munud i Feddwl – 13 Ebrill 2011

"*... don't teach my boy poitry ...*" Na ofidier! Nid tystiolaeth sydd yma fod angen gwella sgiliau sillafu Saesneg ein Gweinidog! Dyfyniad o un o hanesion William Temple yw hwn. '*poitry*' a'r dirwasgiad economaidd. Beth sydd â rhain i'w wneud â'i gilydd? Daw'r ateb yn amlwg ar ôl darllen **Munud i Feddwl** yr wythnos hon!

Blodau'r Haul, Eglwys Iach a Mastermind Masnach Deg! – 10 Ebrill 2011

A'r haul yn tywynnu tu alllan, addas iawn oedd mai Blodau'r Haul oedd thema'r **Oedfa Foreol Gynnar** o dan arweiniad Elin Evans (Llun: Blodau'r Haul gan Vincent van Gogh 1853-1890). Buom yn gwrando ar hen chwedl yn sôn am wledydd y byd mewn ymrafael hunanol a barus hyd nes i fyd natur wasgaru hadau heddwch Blodau'r Haul ar draws y cyfandiroedd a'r gwledydd. *"Gall fy nail fod yn fwyd i'r anifeiliaid, fy mhetalau yn lliwio'r byd yn euraidd, a'm hadau dirifedi i fwydo ac iachau pawb. Gall fy hadau ddisgyn i'r ddaear a chreu bywyd newydd, dro ar ôl tro. Gallaf fodd yn symbol o heddwch*", oedd datganiad Blodyn yr Haul. Soniodd Elin am y 33 o ryfeloedd sy'n cael eu hymladd heddiw; Terfysg Byrma wedi cychwyn nôl yn 1950 a'r diweddaraf, yn Libya, ond wedi dechrau eleni. Onid ein gwaith ni yw bod yn offeryn heddwch yn ein byd? Fe'n hatgoffwyd gan Elin mai Blodyn yr Haul yw arwyddlun diarfogiad niwclear. Yn 1996, pan ildiodd Wcráin ei arfau niwclear am y tro olaf, cyfarfu gwleidyddion y wlad gyda Gweinidogion Amddiffyn yr Unol Daleithiau a Rwsia i arwyddo cytundeb diarfogi. Dathlwyd y foment trwy wasgaru miloedd o hadau Blodau'r Haul ar hen safle milwrol: *"Sunflowers instead of missiles in the soil will ensure peace for future generations*", oedd geiriau William Perry (*gan.* 1927), cyn-Ysgrifennydd Amddiffyn yr UDA. Ar ddiwedd yr oedfa derbyniodd pawb o eginblanhigyn o Flodyn yr Haul - blodyn i'w dyfu dros yr Haf, ac i'n hatgoffa, wrth glywed a gweld y bomio, y lladd a'r dinistr ar y cyfryngau, am gariad Heddwch Crist. Neges bwrpasol iawn oedd hon a hithau'r penwythnos y gorffennwyd adnewyddu, ac ail-agorwyd, beddrod Ffransis o Assisi (1181-1226). Gofiwn ei weddi: *"Iôr, gwna fi'n offeryn dy hedd, …"* (*addas.* Sebastian Temple (1928-1997); *cyf.* Siân Rhiannon (*gan. 1955);C.Ff.* 868).

Dros fisoedd y Gaeaf buom yn astudio Llythyr Iago. Heddiw dyma gyrraedd y bennod ddiwethaf! Ar ôl bod yn trafod Ffydd a Doethineb, Tlodi a Chyfoeth, Temtasiwn a Dioddefaint, Gwrando a Gweithredu Gair Duw, a Chyfraith yn rhyddhau wrth Gaethiwo, buom yn edrych ar Beryglon Si, Sôn a Siarad Gwast ym Mhennod 3 ac yna, Perthynas y Cristion â'r byd ym Mhennod 4. Rhybudd i'r Cyfoethog (Llun: Dameg y Dyn Cyfoethog gan Rembrandt 1606-1669) bu maes cychwynnol ein hastudiaeth yn yr **Oedfa Foreol**; fe'n hatgoffwyd y collir pob golwg ar elfen ysbrydol bywyd pan â'r materol yn rhy bwysig. Wrth ddarllen drwy'r bennod down i ddeall mai dymuniad Iesu yw creu ohonom bobl unplyg, heb unrhyw blygion lle gall baw ansicrwydd, hunan amheuaeth a chasineb grynhoi. Gorffen Llythyr Iago gyda her enfawr i Eglwys Iesu Grist. Rhestra Iago beth yw **nodweddion Eglwys Iach**: ***gweddi*** - nid oes ystyr na bodolaeth i ddim heb weddi; **cân** - byd llawen yw byd y Cristion; ***iechyd*** - amhosibl sicrhau iechyd corff heb ystyried iechyd y meddwl a'r enaid yn ogystal; ***cyffes*** - cyfrwng iechyd i'r eglwys a'r gymuned o'i chwmpas; a ***chenhadaeth*** - os nad ydym yn gyfryngau i Dduw i gael estyn allan pa werth sydd i ni? Daeth y Gweinidog a'i sylwadau i'w terfyn trwy ddefnyddio geiriau Bob Dylan (gan. 1941; llun): *"What good am I if I know and don't do, if I see and don't say, if I look right through you … What good am I?"* (Hawlfraint: 1989 Special Rider Music). Mae'r profiad o astudio a dehongli llyfr penodol o'r Beibl gyda'n gilydd fel cynulleidfa dros gyfnod o amser wedi bod yn amheuthun ac yn ysbrydoliaeth. Er nad ydyw negeseuon Iago wedi bod yn fêl i gyd, 'rydym fel cynulleidfa o Bobl

Duw wedi datblygu ac aeddfedu yn ein hamgyffred a'n dealltwriaeth o rhai o'r gwirioneddau mawr a geir yn y llythyr arbennig hwn. Mawr fu ein braint.

Ar yr Ail Sul cyn y Pasg (*Sul y Dioddefaint* yn y calendr eglwysig) mae Jerwsalem, o'r diwedd, yn agosáu. Wedi gorfod dilyn hen lwybr araf, hir ac anodd, dyma heddiw ffordd unionsyth, hawdd ei cherdded. Wrth i ninnau ymlwybro ymlaen ar Daith y Grawys cofiwn am eiriau'r Salmydd: *"Mor hawddgar yw dy bebyll di, O Arglwydd y Lluoedd! Fy enaid a hiraetha, ie, ac a flysia am gynteddau yr Arglwydd; fy nghalon a'm cnawd a waeddant am y Duw byw."* (Salm 84:1-2). Pererin o Iddew sydd yma, ar ei ffordd i un o'r gwyliau crefyddol yn Jerwsalem, ac yn dod i olwg y Deml. Dyma olygfa sy'n peri iddo lonni trwyddo! Mae'r ffordd bellach yn haws i'w throedio; cadwn mewn cof er mai'r demtasiwn yw rhuthro a charlamu, mae'n werth cymryd pwyll bob amser. Pwysig yw ymbwyllo, er byrred y daith ac er sythed y ffordd; nid ar frys y ceir gorau'r Grawys. Daeth cyfle yn ystod y dydd i gynnau cannwyll gweddi, a gofyn am gymorth Duw i ymdawelu, i ymbwyllo, i ymlonyddu ac i ymagor i rin llonyddwch mawr ein Duw.



"Anrhydedda dy dad a'th fam, er mwyn amlhau dy ddyddiau yn y wlad y mae'r Arglwydd yn ei rhoi i ti" (Exodus 20:12). Y Pumed Gorchymyn oedd testun ein sylw yn yr **Oedfa Hwy rol**. Wrth ddarllen y Deg Gorchymyn sylwn mai dim ond ein rhieni y cawn ein hannog i'w hanrhydeddu. Fe'n hanogir i lynu wrth Dduw, i barchu Ei enw ac i gofio'r Saboth. Rhaid anrhydeddu rhieni. Pam? Wrth eu hanrhydeddu anrhydeddwn Duw trwy gydnabod hawl Duw trosom a'n dyled i'r sawl a'n creodd. Wrth anrhydeddu cydnabyddwn a chyfaddef ein dyled am ein bodolaeth i eraill; cydnabod Duw fel gwraidd ein bod. Bu plant yn ofid i'w rhieni erioed! Ond ai gorchymyn i blant sydd yn y Pumed Gorchymyn?



"Na!", meddai'r Gweinidog. *"Onid natur ein perthynas â'n rhieni wrth i ni, a hwythau, heneiddio yw hanfod y gorchymyn hwn?"*, gofynnodd. Aeth ymlaen i esbonio sut y mynna'r Pumed Gorchymyn mai cwbl amhosibl adeiladu cymuned a chenedl ar sylfaen goroesiad y cryfaf! Atgoffa Pobl yr Exodus a wna'r gorchymyn mai sylfaen eu bywyd newydd oedd gofal am yr ifanc, a pharch at yr hen. Yn 2011, atgoffa'r gorchymyn ni mai hanfod cymdeithas wâr yw diogelwch i blant, ac urddas ac anrhydedd i'r henoed. Fel eglurdeb, atgoffwyd ni o hanes aduniad Joseff â'i deulu. *"A yw fy nhad yn dal yn fyw?"*(Genesis 45:3) - cwestiwn sy'n amlygu'r gofid a fu'n pwyso'n drwm ar Joseff (Llun: Joseff yn cyfarfod â'i dad yn Gosen - Genesis 46:29). Byddai wedi bod yn hawdd i Joseff anfon digon o arian i gynnal ei dad yn ei flynyddoedd olaf; yn hytrach mynnodd rannu ei amser, yn ogystal â'i arian, â Jacob. Fe'n heriwyd heddiw, yn yr Oedfa Foreol a heno, i ystyried ein goblygiadau i sicrhau Eglwys iach a chymdeithas wâr.

Ar ddechrau'r Oedaf Foreol Gynnar, mewn seremoni Oscaraidd iawn(!), cyhoeddodd ein Gweinidog pwy oedd buddugwyr y ddau gwis a gynhaliwyd adeg Pythefnos Masnach Deg. Enillwyd y **Cwis Minny Mastermind** gan Shani Llyr a fu wrthi'n ddyfal yn chwilio am yr atebion mewn posteri a nwyddau ar hyd Katerina yn derbyn llongyfarchaidau'r Gweinidoga lled y festri a'r capel. **Mastermind Masnach Deg Minny Street 2011**, gyda bron pob ateb yn gywir, yw Rhiannon Evans. Yn yr **Oedfa Hwyrol**, braf oedd deall bod Katerina Jonathan, un o'n Criw Myfyrwyr, wedi cael ei derbyn i fod yn un o gynrychiolwyr Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng nghynllun *"Bruggen Bouwen - Building Bridges"* CWM (Cyngor y Genhadaeth Fyd-Eang) Ewrop. Dewiswyd

Katerina fel un o'r 30 a fydd yn ymgynnull a chynrychioli Cristnogion Ewrop yn y Ty Cenhadol yn Amsterdam. Ymfalchïwn, fel eglwys, yn ei llwyddiant ac edrychwn ymlaen at glywed am ei hanes a'i phrofiadau wedi iddi ddychwelyd. Ers peth amser, bu mynychwyr Teithiau Cerdded Minny Street yn gwisgo eu crysau arbennig; bellach, cyrhaeddodd y crysau i'r gweddill ohonom - gobeithio'r estyn eu gwisgo cyfle i sôn am ein ffydd wrth eraill.

Gair Pos Mis Mawrth oedd: **Croesbren**

Myfyrdod y Grawys – *Y Grawys a'r Ysbryd Glân* – 7 Ebrill 2011



Yng ngeiriau Credo Athanasiws o Alecsandria (296-373) (*Quicumque vult*), y Credo cyntaf lle cydnabyddir cydraddoldeb tri pherson y Drindod, fe'n harweiniwyd, gan yr Athro Tomos Watkin, i ystyried dylanwad yr Ysbryd Glân ar fywyd ein Harglwydd Iesu Grist, ac arnom ninnau (Llun: Eicon o Athanasiws o Alecsandria). Trwy ganolbwyntio ein myfyrdodau ar bedair rhan o'r Efengylau fe'n tywyswyd trwy fywyd ein Gwaredwr tra ar yr un pryd ein herio i ystyried goblygiadau'r hanesion ar ein bywydau ninnau, fel unigolion ac fel eglwysi. Yn Efengyl Luc ceir hanes Bedydd Iesu (Luc 3: 21-22 a 4:1) *(Llun: Baptism of Christ gan Andrea del Verrochio (1435-1488)*. Ar ddechrau ei weinidogaeth mae'r Iesu yn gweddïo, ar ôl ei fedydd, am gyfeiriad. Daeth yr Ysbryd Glân, ar ffurf colomen, a'i arwain i'r anialwch. Oni ddylem ninnau weddïo ar i'r Ysbryd Glan ein harwain ninnau? Gyda nerth yr Ysbryd Glan o'i blaid llwyddodd yr Arglwydd Iesu i wynebu her y dyn ag ysbryd aflan ynddo (Luc 4: 14-15, 31-40 a 42a). O adael yr Ysbryd Glân i'n harwain medrwn ninnau wynebu her a gwatwar cymdeithas.

O fyfyrio ar hanes Ffydd y Gananees (Mathew 15: 21-28) gwelwn Iesu, trwy rym yr Ysbryd Glân, yn croesi ffiniau traddodiad; yn yr un modd medrwn ninnau o adael ein hunain i gael ein harwain gan bwer a chariad Ysbryd Duw ddileu muriau traddodiad, hiliaeth, cenedligrwydd ac oedran. Yn olaf, ar yr awr dyngedfennol, yng Ngardd Gethsamane *(Llun: The Agony in the Garden gan Benvenutto de Giovanni 1436- 1509)*, cawn hanes yr Iesu yn gweddïo ar i Dduw ei nerthu: *"Abba! Dad! … y mae pob peth yn bosibl i Ti. Cymer y cwpan hwn oddi wrthyf"* (Marc 14: 36). Estyn yr Ysbryd gyfeiriad, cyngor a chryfder pan fo popeth arall yn syrthio o'n cwmpas.

Daeth y cyfarfod yn Eglwys Ebeneser heno â'r gyfres Grawys i'w therfyn. Heb amheuaeth fe gyfoethogwyd bywydau mynychwyr y cyfarfodydd; diolchwn i'n cyd-aelod, y Parchedig Menna Brown, Cadeirydd Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd, am drefnu'r fath gyfle i baratoi ein hunain ar gyfer y Pasg. Gan gofio am **Oedfa Gwener y Groglith ar 22 Ebrill 2011 yn Eglwys Dewi Sant** troesom tuag adref wedi ein hysbrydoli:

Tyrd, ysbryd cariad mawr, ymwêl â llwch y llawr, a gyr dy nerth yn dân i'm hysbryd egwan;
Ddiddanydd, agosâ, fy nghalon i cryfha a chynnau'r fflam yn hon, dy newydd drigfan.
(Bianco Da Siena, m. 1434; cyf. R F Littledale (1833-90) a Hywel M Griffiths *C.Ff.* 599)

Munud i Feddwl – 6 Ebrill 2011

CSI Miami, CSI New York, Bones, Cold Case, Waking the Dead a *The Murdoch Mysteries ... 'forensics'*! Ydyw'n meidroldeb a'n dyhead am gyfiawnder a thegwch yn eich cosi? Hyn i gyd ddim yn gwneud synnwyr? Darllenwch **Munud i Feddwl** y Gweinidog ac fe sylweddolwch mai dim ond yn Neges y Pasg mae gwir Fywyd a Chyfiawnder!

PIMS: Siopa Teg – 4 Ebrill 2011

Atchar, dom eliffant, cnau tagua a chyrn byfflo. Beth sydd a rhain i'w wneud â ***PIMS*** a hyfforddi'n Pobl Ifanc ar gyfer aelodaeth o Eglwys Crist? Mae'r ateb yn syml - dysgu bod yn ddinasyddion teilwng o'n Harglwydd. Heno, bu dwsin o aelodau ***PIMS*** yn ymweld â **Siop Masnach Deg yn Nhreganna**. Yno, daethpwyd ar draws ystod eang, a rhyfedd, o nwyddau wedi eu creu o bob math o ddeunydd ac adnodd (gan gynnwys atchar, dom eliffant, cnau tagua a chyrn byfflo!). Bu Jan Tucker (llun), un o berchnogion a Rheolwr Gweinyddol y siop, yn sôn ychydig am ei hanes a sut y bu iddi, o argyhoeddiad Cristnogol, ymrwymo i weithio dros hybu a datblygu system deg o fasnachu ar draws y byd. Sefydlodd Jan gwmni *Fair Do's* yn 1997 ac agor y siop ar Heol Llandaf yn 1998. Datgelodd mai'r catalydd mwyaf i ymwneud â'r gwaith oedd Iesu, yn y synagog yn Nasareth, yn darllen geiriau'r Proffwyd Eseia: *"… i bregethu'r newydd da i dlodion. Y mae wedi f'anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion, ac adferiad golwg i ddeillion, i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd"* (Luc 4: 18-19).

Bu i ni ddysgu sut mae Masnach Deg yn sicrhau telerau gwell i gynhyrchwyr a phrynwyr; hybu safonau gwaith teilwng ac urddasol i weithwyr, yn arbennig merched; datblygu canolfannau cydweithredu ac addysgu pobl o'r angen i sicrhau tegwch masnachol ar draws y byd. Clywsom, hefyd, am fentr gweithwyr ifanc Rwanda yn dylunio a chynhyrchu, am y tro cyntaf o wlad llai datblygiedig, gardiau Cymraeg. Efallai, mai geiriau Iago a gafodd fwyaf o effaith arnom wrth i Jan grynhoi'r cyfan: *"Clywch! Y mae'r cyflogau na thalasoch i'r gweithwyr a fedodd eich meysydd yn gweiddi allan; ac y mae llefain y medelwyr yng nghlustiau Arglwydd y Lluoedd."* (Iago 5:4)



Cafodd aelodau PIMS gyfle i holi cwestiynau a chymryd rhan mewn cwis; 'roedd yr atebion i gyd i'w cael ar silffoedd y siop a dyfal bu'r chwilio ymysg y nwyddau am atebion i ba wlad y daw cerfiadau o gyrn byfflo ohoni?; pa goffi sy'n dod o gydweithfa menywod yn unig?; i greu pa eitem wedi'i hailgylchu y defnyddir dom eliffant? a pha grochenwaith sy'n dod o Wlad Thai? (Llun: Gemwaith o gnau tagua) Cai ac Owain (nid Owain Llyr!) oedd y buddugwyr! Chwarae teg i'r ddau, gan gofio mai yn siop tegwch i bawb 'roeddent, rhannwyd y pecyn o wyau Pasg ymysg eu cyd-aelodau!

Cyn gadael a mynd adref dyma groesi'r ffordd i Ganolfan Chapter a chael byrbryd gyda'n gilydd – cyfle i gymdeithasu, sgwrsio am y profiad o fod yn yr Oedfa Dderbyn ddoe a thrafod sut gall Eglwys Minny Street wireddu fwyfwy o'i breuddwyd i fod yn Eglwys Masnach Deg.

Oedfa Derbyn Aelodau Newydd: Pedwerydd Sul y Grawys – 3 Ebrill 2011

'Roedd heddiw yn Sul arbennig iawn yn hanes Eglwys Annibynnol Minny Street; yn Oedfa'r Bore cawsom groesawu tair o'n pobl ifanc yn gyflawn aelodau o'n cynulleidfa. Mae Enlli, Manon a Sioned yn aelodau ffyddlon o ddosbarthiadau'r Ysgol Sul a ***PIMS***, ac, o'u gwirfodd, wedi penderfynu cyflwyno eu hunain i waith a chymdeithas yr Eglwys. Braint i'r gynulleidfa luosog a ddaeth ynghyd oedd cael tystio i'w hymrwymiad cyhoeddus.

Hanes Esther oedd thema defosiwn y plant ar ddechrau'r Oedfa Foreol; dyma fydd thema eu hastudiaeth a'u gweithgarwch y mis hwn. Cyn symud i'r Festri ar gyfer yr Ysgol Sul, llwyddodd y Gweinidog, trwy ddefnyddio boncyff pren a saith anifail, i gyfleu ystyr Teulu'r Eglwys i'r plant a'r plantos a oedd wedi ymgynnull yn y Sêt Fawr i ddweud eu hadnodau. Cafwyd hwyl enfawr yn casglu ymysg aelodau'r gynulleidfa chwech o anifeiliaid yn gysylltiedig â choed a choedwig, anifeiliaid a oedd (yn ôl y Gweinidog!) wedi dianc o'i ofal cyn i'r Oedfa gychwyn: robin goch, draenog, tylluan, wiwer, cadno a mochyn daear. Tynnodd y Gweinidog ein sylw i'r ffaith bod un anifail - aderyn - ychwanegol yn dod i fyw yn y boncyff heddiw. Aderyn lliwgar, glas a melyn, yn cynrychioli Manon, Sioned ac Enlli. Fel yr aderyn yn ymgartrefu yn ei gynefin, felly hefyd y Tair! Heddiw, daethant yn rhan annatod o addoliad, cenhadaeth, gweithgarwch a phenderfyniadau Eglwys Minny Street.

Ychydig yn anghyfarwydd i aelodau eglwysi anghydffurfiol oedd gweld croes liwgar yn ein croesawu yng nghyntedd y capel. Dyna a gafwyd fore heddiw! Rhagymadrodd i thema'r Oedfa Dderbyn: **Tair Croes** wedi eu cynllunio a'i gwneud gan y Gweinidog, un yr un i Enlli, Manon a Sioned. 'Roedd pob un o'r Dair Croes yn unigryw, fel mae pob person yn unigryw, ac yn ein hatgoffa hefyd bod dod i gyflawn aelodaeth yn llwybr i ddod i berthyn i gymdeithas cwbl unigryw. Cymdeithas Pobl Dduw, cymdeithas lle cyffwrdd ysbryd ag ysbryd, meddwl a meddwl. 'Roedd yna nifer o elfennau ar y croesau. **Llun teulu** i atgoffa'r Dair mai teulu yw Eglwys Minny Street; **wyneb cloc** ac yn lle rhifau neges - ***Mae Duw gyda ni*** - yn atgoffa pawb bod angen gwneud amser i Dduw bob amser. **Gwaith hoff awdur a Salm**; er mor dda darllen am anturiaethau Harry Potter a'r *Famous Five* mae angen hefyd amser i ddarllen Gair Duw. Telyn, ffidil, clocsio, ffliwt, rhedeg, tenis a sgïo - **Sioned, Enlli a Manon wrth eu pethau**; gweddïwn ar i'r Tair fod yn bobl annibynnol eu barn a'u hysbryd, deallgar ac anturiaethus, yn deyrngar i'r delfrydau gorau. Yn olaf, llun ***PIMS*** yn atgof o gyfarfodydd ***PIMS*** a dosbarthiadau'r Ysgol Sul lle daw **Pobl Ifanc Minny Street** i weld a deall beth yw gwerth perthyn yn llawn i eglwys leol.



Cyn dod ar Fwrdd yr Arglwydd rhoddwyd cyfle i Enlli, Manon a Sioned ddatgan yn gyhoeddus eu hymrwymiad i'w Harglwydd ac i'w Eglwys, gan ymbil am nerth a chyfeiriad i weddïo, i garu, i roi ac i weithio. Bu hefyd i Gyfeillion Hyn y tair, ynghyd â'r gynulleidfa, addunedu'n ffurfiol eu parodrwydd i gynorthwyo'r Tair i aeddfedu yn y Ffydd, i dyfu yng nghymdeithas Eglwys Dduw ac i fod yn dystion byw i Grist. Fe'n harweiniwyd gan y Gweinidog i Fwrdd y Cymun trwy sôn am Fu Mingxia - merch 12 oed o Tsiena, cyn-bencampwraig deifio'r byd, enillydd y Fedal Aur yn y Gemau Olympaidd yn Barcelona yn 1982. Dewrder anhygoel, hyblyg eithriadol, gosgeiddig … ond nid oedd yn medru nofio! ***Onid oes yma ddarlun o Ffydd?*** Yng nghyd-destun y Ffydd does neb ohonom yn medru

nofio! Ond os ydym am wybod beth yw Ffydd, rhaid plymio i'r dyfnder, medru nofio neu'i pheidio. I brofi gwefr a gwerth Ffydd rhaid camu o'r ymyl a neidio i'r dwr!

A hithau bellach yn bedwerydd Sul Tymor y Grawys daw'r sylweddoliad bod Taith y Grawys yn daith anodd; mae'n hir, dros dir diffaith, caled a chras. Amhosibl ei throedio heb fod yna ambell werddon ac ynddi ffynnon, gwyrddni a phalmwydd. Yn y werddon ceir adfywiad, popeth sydd ei angen i'n hadnewyddu: dwr, cysgod o lygad crasboeth yr haul a ffrwythau'r palmwydd yn fwyd. Gardd yng nghanol anialwch. Amhosibl teithio Taith y Grawys heb y llecynnau hyn; gofala Duw amdanom a'n hadnewyddu. Hanfod pob gwerddon yw gorffwys ac adnewyddiad. Cawsom gyfle yn ystod y dydd i gynnau cannwyll gweddi a chyflwyno naill ai'n hunain, am ein bod angen gorffwys wedi blinderau'r daith, neu berthynas, cyfaill neu gydnabod y gwyddom sy'n dyheu am adnewyddiad corf ac enaid. Cyflwyno i Werddon Gofal Duw.

Nid aeth Sul y Mamau (neu Sul y Fam (Eglwys), fel y byddwn Annibynwyr yn ei adnabod!) yn angof gennym yn Oedfa'r Bore. Rho Eglwys Rhufain sylw mawr i le a swydd Mair, Mam Iesu. Er yn ddieithr i'n traddodiad efallai ein bod, fel Protestaniaid, wedi bod yn brin o'n gwerthfawrogiad o'r mamol mewn crefydd, yn ogystal â'r tadol. Fe'n hatgoffwyd gan ein Gweinidog am eiriau Eseia, *"Fel y cysurir plentyn gan ei fam byddaf fi'n eich cysuro chwi."* (Eseia 66:13), a geiriau'r Arglwydd Iesu, *"mor aml y dymunais gasglu dy blant ynghyd, fel y mae iâr yn casglu ei chywion dan ei hadenydd …!"* (Luc 13: 34). Fe'n heriwyd i sicrhau bod y mamol yn cael cyfle i fynegi ei hun ym mywyd ein heglwys fel ein bod yn medru dweud amdani, fel canodd Rudyard Kipling (1865-1936) am ei fam yn ei gerdd *Mother O'Mine: "If I were damned of body and soul, I know whose prayers would make me whole, Mother o' mine, Mother o' mine."* *"Gwyn ei byd yr eglwys honno"*, meddai'r Gweinidog, *"y mae greddf famol yn ei llywodraethu. Pwysicach na'i rhif, thalent, cyfoeth na'i llwyddiant mwyaf yw bod calon mam yn curo yn ei mynwes.* ***Cwlwm cariad yw dechrau a diwedd Eglwys.****"*

Pwysigrwydd yr Eglwys Leol oedd cano lbwynt Oedfa'r Hwyr. Erys yn flaenoriaeth, o leiaf i rai, wrth symud cartref i ddarganfod cartref ysbrydol cyn gynted â phosibl. Sut mae dewis? Cwbl ddiystyr i Pedr ac Iago, Paul ac Ioan, a gweddill y Cristnogion cynnar, oedd sôn am ddewis eglwys. Amhosibl oedd iddynt wahaniaethu rhwng eu teyrngarwch i Grist a'u haelodaeth yn y gymuned oedd yn gorff iddo ar y ddaear. Beth yw Eglwys Crist? Cymdeithas o Dduw ac iddi geilw Duw pob lliw, llun a llewyrch o bobl. Fe'n hatgoffwyd gan y Gweinidog mai pobl fel ni yn ymateb sy'n creu eglwys; **nid** pobl fel ni yn dewis! Rhaid sylweddoli ein bod yn ymuno â'r eglwys leol er mwyn cael ein hachub. Yn ddyddiol mae Duw ar waith yn ein rhyddhau o bob peth a fyn ein cadw yn bell oddi wrtho. **Oes angen ymuno â chynulleidfa leol?** Onid digon bedydd, bod yn rhan o'r Eglwys fawr gosmig, byw'r Bywyd Cristnogol? Na! Rhaid perthyn i gymuned Gristnogol leol! I'r egwlys leol, pwysicach o lawer na'i rhif, na'i thalent, na'i chyfoeth yw bod calon perthynas yn curo yn ei mynwes. **Pa ffactorau a ddylai ddylanwadu ar ein dewis o eglwys?** Beth sy'n bwysig yw beth a wna Duw, ac i ble mae Duw yn ein harwain. Fe arwain Duw ninnau at eglwys sydd â gras a chariad yn cael eu dysgu a'u gweithredu; lle mae cymdeithas yr Ysbryd Glan yn realiti; a lle ceir pobl, nid seintiau gwydr! Fe'n heriwyd gan y

Gweinidog i ymroi, yn Eglwys Minny Street, mewn gwaith a gweddi, mewn addoliad a chymdeithas, mewn gwasanaeth a chenhadaeth i fod yn eglwys y gall *"**yr Arglwydd ychwanegu beunydd at y rhai sydd yn cael eu hachub**"* (Actau 2:47).

"I know 'cos I was there" – cân enwog Max Boyce fu'n gatalydd i'r Gweinidog rannu â selogion ***Wedi 7*** ei ddymuniad i fod mewn dau gyfarfod hanesyddol. Y cyntaf yn Kiev ym 1920, a'r ail yn Johannesburg yn 1985. Y ddau gyfarfod yn dangos beth sy'n bosibl pan fydd yr Eglwys yn codi ei phen o'i phlu. **Kiev 1920**: rali fawr gan y Comiwnyddion a Nikolai Bukharin (1888-1938) yn traethu. Bu wrthi yn ymosod ar y Ffydd Gristnogol. Gwahoddwyd cwestiynau. Cododd offeiriad o'r Eglwys Uniongred Rwsiaidd a datgan: *"Atgyfododd Crist!"* Ar unwaith, safodd y dorf ar ei thraed ac ymateb: *"Atgyfododd yn wir! Haleliwia*!" Methodd Bukharin ymateb! Yr ail, **cyfnod apartheid yn Ne Affrica (1985)**. Yr Archesgob Desmond Tutu (*gan.* 1931) yn trefnu gwasanaeth yng Nghadeirlan Johannesburg; y lle dan ei sang. Tutu yn datgan wrth yr heddlu arfog a'r milwyr oedd ymhobman: *"You may be powerful, indeed very powerful, but you are not God! And the God whom we serve cannot be mocked. You have already lost! So, since you have already lost, we are inviting you to come and join the winning side!"* Llanwodd y Gadeirlan â llawenydd, aeth yr heddlu a'r milwyr allan, a chododd y gynulleidfa i foli Duw mewn dawns a chân. Mae Ffydd yn gweithio! Arweiniodd yr ddau hanesyn i drafodaeth ar ymateb ac ymdeimlad greddfol ffydd; y gwrthdaro honedig rhwng gwyddoniaeth a chrefydd - ai Richard Dawkins (*gan.* 1941) yw Nikolai Bukharin (1888-1938) 2011?; sut mae mesur llwyddiant eglwys ac oni wneir cam mawr â'r Efengyl wrth fesur llwyddiant ac effeithiolrwydd eglwys yn ôl rhif yr aelodau?



Cerdd Robert Frost (1874 – 1963) *Stopping by Woods on a Snowy Evening* sy'n cael sylw yn **... ac Ati** y mis hwn. A hithau'n Fis y Pasg priodol mai **cariad** yw thema **Myfyrdod y Mis.**

Taith Gerdded: Parc Cefn Onn – 2 Ebrill 2011

Ar ôl bore cynnar llwydaidd a llaith, fe gododd yr haul a theimlem ei wres ar ein cefnau wrth i griw o gerddwyr grynhoi wrth fynedfa Parc Cefn Onn yng ngogledd y brifddinas. 'Roedd cloddiau'r maes parcio a'r rhodfa tuag at giatiau'r Parc yn wledd o felyn y briallu a'r cennin Pedr.

Bron i gan mlynedd yn ôl a mab Rheolwr Rheilffordd Cwm Rhymni yn blentyn gwantan ei iechyd aeth y tad (Ernest Albert Prosser; Llun: o Contemporary Portraits 1907) ati i gynllunio a phlannu gardd yn yr ardal o gwmpas ffrwd Nant Fawr fel y gallai'r mab (Cecil) gael ei gludo allan i'r awyr iach i geisio adfer ei iechyd. Plannwyd amrywiaeth o goed, rhai cynhennid a rhai egsotig yn y cwmwd ac erbyn heddiw mae yna lwybrau celyd newydd yn groes ymgroes drwy'r coed a'r lle yn hafan i fywyd gwyllt

Un o nodweddion enwocaf y Parc yw'r cyfoeth o goed Rhododendron sydd yno. Synnem heddiw fod cynifer ohonyn nhw eisoes yn eu blodau a dotiem at y carped gwyn o Flodau'r Gwynt odditanynt. Daeth dwy

linell o waith Eifion Wyn (1867 - 1926) i Fis Ebrill i’r cof:

“Tyred yn dy felyn, A thyred yn dy wyn"
(*Telynegion Maes a Môr*; Education Publishing Company, Caerdydd 1906)



Daeth Parc Cefn Onn yn eiddo i Gyngor y brifddinas yn 1944 a bu'n adnodd gwerthfawr sy'n denu miloedd o ymwelwyr ym mhob tymor i fwynhau’r llonyddwch a'r harddwch naturiol.

Erbyn i'r cerddwyr gyrraedd ty bwyta'r Bwthyn yn Llysfaen 'roedd hanner dwsin arall wedi dod i fwynhau cinio gyda ni a bu cryn dynnu coes rhwng y "cerddwyr" a’r "ciniawyr". Edrychwn ymlaen nawr at ddyfodiad y Clychau Glas yng nghoed Y Wenallt.